



1 Medi 2017

Annwyl Clerc y Cyngor

CLYSTYRU: ARIANNU I GYFLWYNO TREFNIADAU CYFLEUSTEROL AR Y CYD.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision posibl, a diddordeb presennol y sector, yn archwilio clystyru. Mae'r manteision posibl a nodwyd gan y sector yn cynnwys gallu mynd i'r afael â materion ar draws y maes, cydweithio ar feysydd penodol, a chyflawni arbedion maint. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ymrwymiad drwy'r "agenda ar gyfer gweithredu" a gyhoeddwyd yng nghynhadledd Un Llais Cymru ym mis Hydref 2016 i hwyluso creu clystyrau, lle roedd diddordeb yn y sector i wneud hynny, gan wneud rhywfaint o arian ar gael *i gefnogi sefydlu trefniadau ar y cyd yn y lle cyntaf*.

Mae cyllideb gymedrol o £20mil ar gael ar gyfer 2017-18 yn unig, er mwyn rhoi cyfle i nifer fach o Gynghorau Cymuned a Thref sydd eisoes yn ystyried opsiynau o gwmpas clystyru i fwrw ymlaen â'r meddwl hwn i wneud cais ymarferol.

Bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru o gefnogaeth i gynigion unigol yn cael ei gapio ar £5mil fel grant unwaith ac am byth er mwyn gallu cefnogi nifer fach o brosiectau clystyru.

Bydd angen i gynigion ddangos ac ymrwymo i gyflawni'r holl weithgareddau a rhai allbynnau cyn diwedd 2017-18. O ystyried yr amserlen gymharol fyr i sefydlu a chyflwyno cynnig prosiect, bydd angen i gynigion roi tystiolaeth glir o ymrwymiad a gallu i weithredu'r cynnig yn gyflym.

Nid bwriad y gefnogaeth yw clystyru "peilot" ar gyfer cyflwyno'n ehangach; Dim ond cydnabod awydd y sector i ddatblygu eu syniadau presennol ar glystyru - galluogi datblygu, heb ei yrru. Mae'n rhoi cyfle i annog y cynghorau hynny sydd â diddordeb mewn clystyru yn flaenrol ond sy'n wynebu rhwystrau wrth ddatblygu eu syniadau ymhellach.

Mae pob cyngor yn gymwys i wneud cais gan ddefnyddio'r nodyn cyfarwyddyd a'r ffurflen gais amgaaedig gyda'r llythyr hwn, Atodiad A ac Atodiad B, ar gyfer cynigion sy'n ymwneud â darparu yn 2017-18. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 13 Hydref 2017.

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi i LGPartnerships@llyw.cymru gan ddefnyddio "Clwstr CTC 2017-18" yn y pennawd. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau ar 13 Hydref yn cael eu hystyried. Rydym yn hapus i ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynglŷn â'r broses neu'r ffurflen gais, cysylltwch â ni trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

Yn gywir

Joan Lockett

Partneriaethau Llywodraeth Leol